Home Office

Y Swyddfa Gartref

Canllawiau ar Hysbysiadau Gwybodaeth a Gyhoeddir o dan y Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor

Ebrill 2025

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/collections/foreign-influence-registration-scheme

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn

FIRS@homeoffice.gov.uk.

Cynnwys

Ynglŷn â'r Canllawiau hyn 2

Pennod 1: Cyflwyniad i hysbysiadau gwybodaeth 3

Pennod 2: Pwy all gael hysbysiad gwybodaeth? 4

Pennod 3: Gwybodaeth sy'n ofynnol drwy hysbysiad gwybodaeth 5

Pennod 4: Proses ar gyfer derbyn ac ymateb i hysbysiadau gwybodaeth 6

Ynglŷn â'r Canllawiau hyn

Mae'r Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor (FIRS) yn gynllun dwy haen sy'n sicrhau tryloywder dylanwad tramor yng ngwleidyddiaeth y DU ac yn rhoi mwy o sicrwydd ynghylch gweithgareddau rhai pwerau neu endidau tramor a allai beri risg i ddiogelwch y DU a buddiannau eraill. Mae wedi'i gynnwys yn Rhan 4 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023.

Mae'r cynllun yn galluogi'r Llywodraeth i gyhoeddi hysbysiadau gwybodaeth i'r rhai sydd o fewn cwmpas y cynllun. Bydd gofyn i dderbynwyr hysbysiadau gwybodaeth ddarparu'r wybodaeth a nodir yn yr hysbysiad erbyn y dyddiad penodedig.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi manylion am hysbysiadau gwybodaeth a gyhoeddir o dan FIRS, gan gynnwys pwy all gael hysbysiadau gwybodaeth a throseddau methu â chydymffurfio â hysbysiadau. Fe'i bwriedir ar gyfer y rhai a allai fod mewn trefniadau y gellir eu cofrestru o dan y cynllun, neu sy'n cyflawni gweithgareddau yn unol â'r trefniadau hyn.

Pennod 1: Cyflwyniad i hysbysiadau gwybodaeth

1. Mae hysbysiad gwybodaeth yn gais am wybodaeth sy'n ymwneud â threfniant neu weithgaredd cofrestradwy o dan FIRS. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i dderbynwyr hysbysiadau gwybodaeth ymateb erbyn y dyddiad a nodir ar yr hysbysiad.

2. Nid yw hysbysiad gwybodaeth o reidrwydd yn awgrymu bod y derbynnydd yn cael ei amau o drosedd, neu'n gwneud unrhyw beth annymunol. Mae'r rhai sy'n cydymffurfio â'r hysbysiadau hyn yn cefnogi cydnerthedd y DU a'i sefydliadau yn wyneb bygythiadau gan y wladwriaeth.

3. Nid oes gan gyhoeddi hysbysiad gwybodaeth unrhyw effaith ar gyflawni gweithgareddau. Gall y gweithgareddau barhau i ddigwydd tra bod ymateb i'r hysbysiad gwybodaeth yn cael ei baratoi.

4. Mae methu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth, heb esgus rhesymol, yn drosedd. Mae'n gosbadwy gan:
    a. Hyd at 5 mlynedd o garchar a dirwy o dan y lefel uwch;
    b. Hyd at 2 flynedd o garchar a dirwy o dan y lefel dylanwad gwleidyddol.

Pennod 2: Pwy all gael hysbysiad gwybodaeth?

5. Mae Adrannau 75(1) a (2) o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023 yn nodi y gall y Llywodraeth gyhoeddi hysbysiad gwybodaeth i unrhyw un o'r canlynol:
   - Y rhai sydd wedi cofrestru o dan y naill haen neu'r llall o FIRS;
   - Y rhai y credir eu bod yn rhan o drefniant y mae'n ofynnol eu cofrestru o dan y naill haen neu'r llall o FIRS;
   - Y rhai y credir eu bod yn cynnal (neu'n trefnu i eraill gynnal) gweithgareddau y mae'n ofynnol eu cofrestru, neu sy'n unol â threfniant y mae'n ofynnol ei gofrestru, o dan y naill haen neu'r llall o FIRS.

6. I'r rhai sydd wedi cofrestru, gellir cyhoeddi hysbysiad gwybodaeth i'r rhai sydd wedi darparu manylion annigonol yn eu cofrestriad (er enghraifft, lle nad yw'n glir pa fath o weithgaredd y maent yn ymwneud ag ef neu beth y maent yn ceisio'i gyflawni) neu lle mae angen manylion ychwanegol i ddarparu tryloywder llawn ynghylch y trefniant neu'r gweithgareddau cofrestradwy.

7. Ni ellir cyhoeddi hysbysiadau gwybodaeth i'r rhai y gwyddys eu bod yn elwa o eithriad, fel cenadaethau diplomyddol tramor, ond gellir eu cyhoeddi i'r rhai y gall eithriad fod yn berthnasol iddynt ai peidio i sefydlu a yw hyn yn wir ai peidio.

8. Os ydych chi'n credu eich bod wedi cael hysbysiad gwybodaeth mewn camgymeriad, oherwydd nad ydych chi'n rhan o unrhyw drefniant cofrestradwy nac yn cynnal neu'n trefnu gweithgareddau cofrestradwy, dylech gysylltu â rheolaeth achosion FIRS. Dylech roi esboniad clir pam rydych chi'n credu bod yr hysbysiad wedi'i gyhoeddi mewn camgymeriad.

Pennod 3: Gwybodaeth sy'n ofynnol drwy hysbysiad gwybodaeth

9. Bydd hysbysiad gwybodaeth yn nodi'r wybodaeth sydd ei hangen, yn ogystal â'r dyddiad y mae'n rhaid darparu'r wybodaeth yn ei erbyn.

10. Gall hysbysiad gwybodaeth ofyn am fanylion pellach am y trefniant neu'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal. Gallai hyn gynnwys:
    - Tystiolaeth o'r trefniant (gan gynnwys gohebiaeth neu gontract ffurfiol);
    - Gwybodaeth am bartïon y trefniant;
    - Unrhyw wybodaeth arall i sicrhau tryloywder llwyr ynghylch gweithgareddau neu drefniadau cofrestradwy (gan gynnwys datganiadau ariannol, gohebiaeth, gwahoddiadau i gyfarfodydd/digwyddiadau neu agendâu).

11. Pan fo hysbysiad gwybodaeth yn gofyn am wybodaeth a fydd yn cael ei chyhoeddi ar y gofrestr gyhoeddus, bydd hyn yn cael ei nodi'n glir ar yr hysbysiad.

12. Pan fo angen gwybodaeth sydd y tu allan i'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y gofrestr gyhoeddus, megis datganiadau ariannol, yna bydd yr wybodaeth hon yn cael ei thrin yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU, ac ni fydd yn cael ei chynnwys ar y gofrestr gyhoeddus.

13. Nid yw hysbysiadau gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd ddarparu gwybodaeth y mae ganddynt hawl i wrthod ei datgelu mewn achosion cyfreithiol ar sail braint broffesiynol gyfreithiol (yn yr Alban, cyfrinachedd cyfathrebiadau). Yn yr un modd, ni fydd yn ofynnol iddynt ddatgelu deunydd newyddiadurol cyfrinachol (fel y'i diffinnir gan adran 264 o Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016) na nodi neu gadarnhau ffynhonnell gwybodaeth newyddiadurol (fel y'i diffinnir gan adran 263 o Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016).

Pennod 4: Proses ar gyfer derbyn ac ymateb i hysbysiadau gwybodaeth

14. Tîm Rheoli Achosion FIRS yn y Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am weinyddu'r Cynllun, ac am gyhoeddi hysbysiadau gwybodaeth.

15. Bydd y dull y dylid cyflwyno ymateb yn cael ei nodi ar yr hysbysiad.

16. Bydd y dyddiad y mae angen ymateb yn ei erbyn hefyd yn cael ei nodi ar yr hysbysiad. Bydd y dyddiad hwn o leiaf 5 diwrnod gwaith o'r dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad.

17. Yn ogystal â hysbysiadau gwybodaeth ffurfiol a lle bo'n briodol, gallai'r Tîm Rheoli Achosion hefyd gysylltu â chofrestrwyr ar sail fwy anffurfiol i geisio eglurhad ynghylch gwybodaeth a ddarparwyd wrth gofrestru.